



PECYN YMGEISYDD

DOD YN RHAN O DÎM CREDYDAU AMSER TEMPO

☎ 029 2056 6132 ✉ hello@wearetempo.org 🌐 wearetempo.org
🐦 [@tempo_tweets](https://twitter.com/tempo_tweets) 📘 [timecredits](https://www.facebook.com/timecredits)

Tempo

Helo! Rydym wrth ein bodd bod gennych ddiddordeb yn ein swydd yma yng Nghredydau Amser Tempo Cyf.

Rydym yn wahanol! Mae gennym gymeriad a deinamigrwydd.

Menter gymdeithasol yw Tempo sy'n tyfu'n gyflym gydag uchelgais enfawr. Mae ein gwaith yn adeiladu cymunedau cryf, gwydn ac yn rhoi'r offer i bobl wneud newidiadau gwirioneddol, parhaol yn eu bywydau.

Ein bwriad yw galluogi pob un o'r 169,000 o gymorth ar y cyd; sefydliadau datblygu cymunedol a gwirfoddol i wneud eu gwaith trwy ddarparu Credydau Amser. Trwy ein llwyfan gallwn helpu'r sefydliadau hyn a'r Llywodraeth: cofnodi, cydnabod a gwobrwyo ymdrechion anhunanol y rhai sy'n gwirfoddoli.

Yng Nghredydau Amser Tempo, mae gennym ni waith pwysig iawn i'w wneud; a hynny i helpu sefydliadau sy'n recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr i wneud y gorau o'u hamser. P'un a ydych chi'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl sy'n cyrchu ein gwasanaethau neu y tu ôl i'r llenni, byddwch chi'n helpu i gryfhau cymunedau bob dydd a gwella iechyd a llesiant i bawb.

Rydym yn sefydliad arloesol - ac felly hefyd ein pobl. Pan ddewch chi i weithio i ni, nid yn unig mae'n bwysig iawn bod gennych chi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad cywir i gyflawni'r swydd, ond mae hefyd yr un mor bwysig bod gennych chi'r agwedd iawn hefyd. Rydyn ni'n edrych i gyflogi pobl sy'n gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn. Credwn fod y dull hwn o recriwtio yn golygu bod Credydau Amser Tempo yn lle eithaf gwych i fod!

Mae'r pecyn ymgeisydd hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i gael teimlad o sut beth yw gweithio gyda ni fel eich bod chi'n cael gwell dealltwriaeth o'r hyn rydyn ni'n chwilio amdano. Mae'n egluro'r broses recriwtio a bydd yn eich helpu i benderfynu a allwch chi weld eich hun fel rhan o'n tîm gwych.

Fe wnaeth ein Strategaeth Pum Mlynedd nodi dechrau ymgyrch i symud o'r lleol i'r cenedlaethol, felly mae gennym ddyfodol cyffrous. Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth a bod gennych chi'r profiad, y sgiliau a'r angerdd



rydyn ni'n chwilio amdany'n nhw, byddem ni wrth ein bodd i glywed mwy gennych chi.

Pob lwc!



PWY YDYM NI?

MAE EIN GWELEDIGAETH AR GYFER CYMUNEDAU CRYF, CYSYLLTIEDIG LLE CAIFF AMSER PAWB EI WERTHUSO.

SEFYDLWYD: 2008

Sefydlwyd ein helusen, Credydau Amser Tempo Cyf, i gefnogi a chryfhau cymunedau sydd wedi'u datgysylltu yng Nghymoedd Cymru gan ddefnyddio Credydau Amser Tempo.

EIN MODEL

Mae ein model yn adeiladu ar y cysyniad o Fancio Amser: system sy'n defnyddio amser fel yr uned gyfnewid. Damcaniaethwyd a phoblogeiddiwyd y cysyniad hwn gan y cyfreithiwr hawliau dynol Edgar Cahn ym 1986.

EIN DYFODOL...

Rydyn am weithio gyda phob cymuned yng Nghymru, Lloegr a'r Alban - gan alluogi mwy o bobl i gyfrannu at eu cymuned leol a chael eu cydnabod am yr amser maen nhw'n ei roi. Mae gennym gontract gyda Llywodraeth Cymru ac rydym yn ehangu cyrhaeddiad Credyd Amser i bob rhan o Gymru, Lloegr a'r Alban nesaf.

I gyflawni'r nod hwn, byddwn yn defnyddio Credydau Amser Tempo i gynnwys pobl newydd mewn cymunedau ac wrth lunio gwasanaethau lleol, gwella iechyd a llesiant i bawb.

DOD O HYD I NI...

Rydym wedi sefydlu rhwydweithiau Credydau Amser Tempo mewn chwe rhanbarth o'r DU, ac mae dros hanner miliwn o Credydau Amser Tempo wedi'u hennill. Mae gennym swyddfa yng Nghaerdydd yn ogystal â thimau sy'n gweithio o bell ar draws Cymru a Lloegr.

GWEITHIWN GYDA...



Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth genedlaethol, Awdurdodau Lleol, Grwpiau Comisiynu Clinigol, Byrddau Iechyd, Darparwyr Tai, Darparwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Ysgolion, Sefydliadau Gwirfoddol a Busnesau i ariannu, cyddylunio a darparu pob Rhaglen Credydau Amser Tempo.

AMDANOM NI....

Ein hamcan Strategol ar gyfer 2018-23 yw ehangu ein cyrhaeddiad a'n heffaith trwy adeiladu rhwydwaith Credyd Amser cenedlaethol, gyda chwarter miliwn yn fwy o bobl yn ymwneud â'u cymunedau a 2.5 miliwn o oriau yn cael eu rhoi a'u defnyddio erbyn Mawrth 2023.

Gweithia model Credydau Amser Tempo yn syml: am bob awr y mae unigolyn yn cyfrannu at ei gymuned neu wasanaeth, mae'n ennill Credyd Amser Tempo. Yna gellir defnyddio'r Credyd Amser Tempo hwn i gael mynediad at awr o weithgaredd ar draws ein rhwydwaith cenedlaethol o bartneriaid cydnabod, megis atyniadau lleol, cyrsiau hyfforddi neu hamdden, neu gellir eu rhoi i eraill neu eu defnyddio ar amrywiaeth o dalebau ar gyfer siopa, bwyta ac adloniant.

Mae rhaglenni Credydau Amser Tempo yn adeiladu cysylltiadau ar lefel leol trwy ymuno â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mewn Cymuned. Mae unigolion yn ennill Credydau Amser Tempo trwy rwydwaith o sefydliadau cymunedol lleol, elusennau a gwasanaethau yr ydym yn ymgysylltu â nhw ac yn eu cefnogi i gyrraedd pobl newydd a diolch i wirfoddolwyr presennol gyda Chredydau Amser Tempo.

Rydym yn datblygu partneriaethau gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n galluogi unigolion i gael mynediad at ystod eang o weithgareddau cadarnhaol. Gall aelodau o unrhyw raglen gyrchu cyfleoedd i ddefnyddio Credydau Amser Tempo ar draws ein rhwydwaith yn y DU. Er enghraifft, gallai rhywun ennill rhai Credydau Amser Tempo trwy wirfoddoli eu hamser mewn grŵp cymunedol yn Swydd Gaerhirfryn a dewis eu defnyddio ar ymweliad ag un o'r nifer o atyniadau yn Llundain sy'n derbyn Credydau Amser Tempo yn gyfnewid am fynediad.

EIN HEFFAITH...


Rydym yn falch iawn o rannu ein canlyniadau gwerthuso effaith 2019 a ddadansoddwyd o ddata a ddarparwyd gan dros 1,100 o bobl sy'n cymryd rhan mewn Rhaglenni Credydau Amser Tempo.



Fel y gwelir yn yr ystod wych o ganlyniadau isod, mae Credydau Amser Tempo yn parhau i ysbrydoli pobl i roi o'u hamser, gwneud ffrindiau a chysylltiadau newydd a dysgu mwy am y cymorth sydd ar gael iddynt.



CREDYDAU AMSER TEMPO YN Y DU...



EICH CAIS

Wel, rydych chi wedi darllen ychydig bach amdanon ni felly nawr eich tro chi ydyw!

Os ydych chi'n hoff o'r hyn rydych chi wedi'i ddarllen hyd yn hyn ac yn meddwl eich bod chi'n gweld eich hun yn aelod o dîm Credydau Amser Tempo yna mae'n bryd anfon eich cais atom. Mae'ch cais yn rhan bwysig iawn o'r broses ddethol oherwydd dyna'r hyn rydyn ni'n ei ddefnyddio i benderfynu a fyddwch chi'n cael eich dewis ar



gyfer cyfweiliad ai peidio. Mae'n hanfodol eich bod chi'n ceisio cyfleu eich holl brofiad a'ch sgiliau perthnasol fel y gallwn ni gael synnwyr da o bwy ydych chi a pham rydych chi'n wych.

Anfonwch eich Cofnod Cyrhaeddiad cyfredol atom ynghyd â llythyr eglurhaol yn dweud wrthym amdanoch chi'ch hun, pam rydych chi eisiau gweithio i Gredydau Amser Tempo a rhoi enghreifftiau o'r sgiliau a'r profiad y byddwch chi'n dod â nhw i'r rôl. Byddem yn ddiolchgar pe gallech hefyd gwblhau ein Ffurflen Gwybodaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'i chyflwyno gyda'ch cais. Gellir cyflwyno'ch cais ar-bost i recruitment@wearetempo.org.

- ✓ Rhestrwch unrhyw gymwysterau ffurfiol. Yn dilyn y cyfweiliad, bydd angen i ni weld y tystysgrifau ar gyfer eich cymwysterau os cynigir y swydd i chi.
- ✓ Sicrhewch eich bod yn cynnwys gwaith â thâl, gwaith di-dâl ac unrhyw brofiad gwaith yn eich hanes cyflogaeth. Dechreuwch gyda'ch swydd bresennol, neu os ydych chi'n ddi-waith ar hyn o bryd, eich swydd ddiweddaraf. Os oes unrhyw fylchau yn eich cyflogaeth, rhowch wybod y rheswm dros y rhain.
- ✓ Mae angen dau dystlythyr arnom a dylai un o'r rheini fod yn gyflogwr presennol i chi. Os nad ydych yn gyflogedig ar hyn o bryd, gallwch ddarparu manylion eich cyflogwr diweddaraf. Os nad oes gennych unrhyw hanes cyflogaeth, rhowch fanylion un canolwr proffesiynol ac un canolwr personol a allai ddisgrifio'ch addasrwydd ar gyfer y rôl orau.
- ✓ Mae cymwyseddau'n ymwneud â'r sgiliau, y galluoedd a'r agweddau yr ydym yn edrych amdanynt yn ein pobl. Mae gan bob un o'n swyddi eu set eu hunain o gymwyseddau a nodwyd yn y fanyleb person. Rydym yn aml yn canfod y bydd ymgeiswyr yn nodi bod ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r swydd, ond nid ydyn nhw'n cynnig digon o fanylion i ni. Er mwyn sicrhau eich bod chi'n dweud popeth sydd angen i ni ei wybod wrthym, nodwch enghraifft sy'n profi bod gennych chi'r hyn rydyn ni'n chwilio amdano. Ffordd dda o



wneud hyn yw defnyddio dull **CAR** i ddisgrifio'r cyd-destun, y weithred a'r canlyniad.

- ✓ **Cyd-destun** – Disgrifiwch y sefyllfa wnaeth eich wynebu a'r dasg a oedd angen ei chwblhau.
- ✓ **Gweithred** – Esboniwch beth y gwnaethoch a sut a pham y gwnaethoch.
- ✓ **Canlyniad** – Disgrifiwch ganlyniad eich gweithredoedd.

Fel y dywedwyd yn gynharach, mae ein gwerthoedd yn rhan bwysig iawn o'r ffordd yr ydym yn recriwtio. Rydyn ni eisiau gwybod a fydd eich personoliaeth yn addas ar gyfer Credydau Amser Tempo, felly byddwch yn chi eich hun a byddwch yn onest – gadewch i'ch personoliaeth ddisgleirio yn eich cais.

A OES GENNYCH UNRHYW GWESTIWN?

GYDA PHWY DDYLWN I GYSYLLTU OS OES GENNYF UNRHYW OFYNIION ARBENNIG?

Os oes angen rhywfaint o gefnogaeth arnoch neu os oes angen ein dogfennau arnoch mewn fformat amgen, er enghraifft, print bras, ffoniwch ein Tîm Adnoddau Dynol ar 029 20 566132.

PA BRYD BYDDAF YN GWYBOD OS OES GENNYF GYFWELIAD?

Rydym yn gwneud ein gorau i lunio rhestr fer a hysbysu ymgeiswyr a ddewiswyd i'w cyfweld cyn pen pythefnos o ddyddiad cau'r hysbyseb.

A FYDDWCH YN FY HYSBYSU OS YW FY NGHAI YN AFLWYDDIANNUS AC A FYDDAF YN DERBYN ADBORTH?

Rydym yn deall faint o amser ac ymdrech sydd ei angen i gwblhau cais a gwerthfawrogwn yr amser rydych chi wedi'i gymryd i ymgeisio am swydd gyda ni. Rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau felly nid ydym yn gallu hysbysu na chynnig adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar gam y rhestr fer.

Os nad ydych wedi clywed oddi wrthym erbyn dyddiad y cyfweliad a nodwyd ar yr hysbyseb swydd, yn anffodus nid ydych wedi cyrraedd rhestr fer y rôl.

PAM YR YDYCH YN GOFYN AM FY NGWYBODAETH CYDRADDOLDEB?

Rydym wedi ymrwmo i werthfawrogi amrywiaeth ac i gyfle cyfartal ac mae angen eich cymorth chi arnom i wneud hynny i sicrhau ein bod yn aros ar y blaen. Rhan o'r ymrwymiad



hwn yw ein bod yn gwarantu cyfweiliad i unrhyw ymgeisydd cymwys sydd wedi datgan anabledd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl. Llenwch ein Ffurflen Gwybodaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd i'w gweld yma a'i chyflwyno gyda'ch cais

BETH FYDDWCH CHI'N EI WNEUD GYDA FY HOLL DDATA PERSONOL?

Rydym yn synhwyrol gyda'n data yma yng Nghredydau Amser Tempo ac yn cymryd GDPR yn hollol ddifrifol. Fe welwch ein Hysbysiad Preifatrwydd Ymgeisydd Swydd ar ein gwefan. Fel arall, gallwch gael copi gan ein tîm Adnoddau Dynol trwy gysylltu â nhw ar 029 20 566132.

